# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 31
26/10/20

## Rhodd y weddw

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

**Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!**



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Anna Krabbenhöft
a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**



# Stori

**Fersiwn Beibl.net**



Pan oedd yn y deml, sylwodd Iesu ar y bobl gyfoethog yn rhoi arian yn y blychau casglu at drysorfa'r deml. Yna daeth gwraig weddw dlawd a rhoi dwy geiniog i mewn. “Credwch chi fi,” meddai Iesu, “mae'r wraig weddw dlawd yna wedi rhoi mwy yn y blwch na neb arall. Newid mân oedd pawb arall yn ei roi, gan fod ganddyn nhw hen ddigon dros ben; ond yn ei thlodi rhoddodd y wraig yna y cwbl oedd ganddi i fyw arno.”

*Luc 21:1-4 Beibl.net*



**Fersiwn syml**

Roedd Iesu yn y deml yn gwylio pobl yn mynd a dod. Wrth ei ymyl roedd blychau casglu i bobl roi arian ynddynt. Roedd y bobl gyfoethog yn rhoi arian mawr yn y blychau. Yna daeth gwraig weddw i mewn ac wrth fynd heibio rhoddodd hi ddwy geiniog yn y blwch casglu. Sylwodd Iesu ar hyn a dywedodd wrth y disgyblion, “Mae’r wraig weddw hon wedi rhoi mwy i Dduw na neb arall sydd yma.” Nid oedd y disgyblion yn deall felly esboniodd Iesu. “Mae gan y bobl gyfoethog ddigon i’w roi a does dim rhaid iddyn nhw boeni am fynd heb ddim, ond rhoddodd y wraig weddw y cwbl oedd ganddi i fyw arno heb gadw dim yn ôl, felly rhodd y wraig oedd y fwyaf yng ngolwg Duw.”



# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Oes gen ti ‘gadw-mi-gei’(blwch casglu arian) i gasglu arian?
2. Pa elusennau wyt ti’n gwybod amdanyn nhw?
3. Pam wyt ti’n meddwl ei fod yn beth da rhoi arian i elusen?
4. Wyt ti’n meddwl ei fod yn haws i berson cyfoethog neu i berson tlawd roi arian at achos da?



# Gweddi fer

O Dduw,<br>
diolch am bopeth wyt Ti’n ei roi i ni.<br>
Diolch fod gennym ni ddigon o fwyd, dillad a theganau.<br>
Plîs helpa fi i gofio am blant yn y byd sydd heb y pethau sydd gen i.<br>
Plîs helpa fi i fod yn garedig tuag atyn nhw.<br>
Amen.




# Stori i'w lliwio

## Dau darn bach o arian

www,lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Aeth Iesu i'r deml yn Jerwsalem i ddweud wrth bobl am Dduw. Gwelodd bobl yn rhoi arian yn y blwch casglu arian at drysorfa'r deml.




Daeth dyn cyfoethog iawn i'r deml â bag mawr o arian. Rhoddodd y cyfan yn y blwch casglu.



Roedd o'n hynod o hunanfoddhaus ac roedd yn gobeithio y byddai pawb yn ei weld y rhoi gymaint o arian yn y bocs! Tincialodd yr arian wrth i'r dyn wneud sioe o'i arllwys i mewn i'r blwch casglu. Am gyfraniad mawr!



Roedd yn hawdd iawn i'r dyn cyfoethog roi swm mawr o arian. Roedd ganddo ddigonedd o arian yn ei gartref a digonedd i'w wario ac fe allai brynu unrhyw beth roedd o ei eisiau.




Yna gwelodd Iesu wraig fach, dlawd yn gollwng dau ddarn arian bychan i mewn i'r blwch casglu. Doedd ganddi hi fawr ddim o arian ond roedd hi'n caru Duw'n angerddol.



Doedd gan y wraig fach, dlawd ddim arian i'w sbario. Buasai wedi gallu cadw'r arian roedd ganddi iddi hi ei hunan ond fe roddodd y cyfan oedd ganddi â chalon ddiolchgar, llawn cariad.



Dywedodd Iesu,"Mae'r wraig hon wedi cyfrannu llawer mwy na'r holl bobl gyfoethog. Doedd cyfrannu arian yn golygu fawr ddim i'r bobl gyfoethog ond rhoddodd y wraig dlawd hon y cyfan oedd ganddi i Dduw, pan roedd hi wir ei angen ei hunan."



Mae Duw yn gweld sut rydan ni'n rhoi iddo fo. Mae o am i ni roi am ein bod yn ei garu, nid am ein bod eisiau i eraill weld faint o arian sydd gennym a pha mor bwysig rydyn ni'n teimlo am hynny.


# Sialensau

## Dangosa dy fod ti'n caru

Meddylia am bethau ymarferol y medri di eu gwneud i ddangos i rywun dy fod ti'n ei garu.
Er enghraifft, fe allet ti gadw'r llestri, glanhau ystafell, anfon cerdyn neu anrheg fach.







Beth am fynd ati i wneud cardiau Nadolig neu gardiau 'Meddwl amdanat' i'w gwerthu i dy deulu a dy ffrindiau a rhoi'r arian i achos da?






## Casglu Ceiniogau

Beth am i ti gasglu arian cochion a 5c mewn jar am ychydig o wythnosau? Efallai yr hoffet ti roi'r arian at elusen wedyn.

## Ffoaduriaid

Mae'r gêm Ludo Lle Diogel yn delio efo rhai materion difrifol a phwysig yr argyfwng ffoaduriaid. Mae wedi ei chreu er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddeall yr hanesion am ffoaduriaid sy'n cyflawni teithiau peryglus.
https://www.christianaid.org.uk/sites/default/files/2017-08/safe-place-ludo-instructions-welsh.pdf
https://www.christianaid.org.uk/sites/default/files/2017-08/safe-place-ludo-board-welsh.pdf



# Chwilair


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | E | B | C | H | O | D | W | A | L | T | U |
| T | LL | A | G | A | LL | I | U | M | O | A | S |
| E | B | D | R | G | S | S | Y | W | CH | N | E |
| M | W | I | O | RH | A | G | W | Y | R | I | I |
| L | A | G | D | N | O | Y | L | G | D | G | T |
| N | P | O | G | E | I | B | E | U | O | I | L |
| U | B | N | D | W | O | L | W | TH | FF | A | O |
| DD | Y | G | O | I | N | I | E | C | G | R | L |
| E | B | U | L | D | N | O | W | DD | E | W | G |
| I | L | Y | R | B | F | N | Y | D | O | G | S |
| DD | W | D | W | Y | CH | Y | D | I | G | RH | A |
| G | CH | T | C | W | B | L | E | A | H | C | N |

ARIAN
BLWCH
BLYCHAU
BYW
CASGLU
CEINIOG
CWBL
CYFOETHOG
DIGON
DISGYBLION
DUW
DWY
GWRAIG
GWEDDW
GWYLIO
HAEL
IESU
MWY
NEB
NEWID
PAWB
RHOI
RHODD
TEML
TLAWD
YCHYDIG

# Pos

## Llythrennau arian

Defnyddia'r cod darnau arian i ddarganfod beth mae Iesu'n ddweud.





Ysgrifenna'r adnod yma…



# Gemau

## Gwthio’r Geiniog

**Bydd angen:**
Bocs cardfwrdd, papur tew neu gerdyn tenau, pren mesur, siswrn, pinnau ffelt, glud, rhywbeth i wneud siâp cylch - fel gwaelod cwpan, darnau ceiniog - i bob chwaraewr



**Beth i’w wneud:**
- Torra un ochr i’r bocs cardfwrdd gyda siswrn.
- Mesura ddarn mawr o bapur tew neu gerdyn tenau i ffitio ychydig yn hirach na gwaelod y bocs.
- Tynna linell bob 4cm ar y papur gyda’r pren mesur a phin ffelt.
- Rhifa pob darn o 1 – 7.
- Torra 3 cylch a rhifa nhw yn 8, 9 a 10.
- Gluda’r cylchoedd ar y papur.
- Gluda’r papur ar waelod y bocs.

**Sut i chwarae:**
- Rho’r bocs ar fwrdd gyda’i ymyl yn agos at ochr y bwrdd.
- Mae pob chwaraewr yn cael 4 darn ceiniog.
- Mae’r chwaraewr yn rhoi ei geiniog ar ymyl y bocs ac yn ei gwthio.
- Os ydy’r geiniog yn cyrraedd tu fewn i un o’r darnau mae’n sgorio’r rhif yna o bwyntiau. Os ydy’r geiniog yn aros yn un o’r cylchoedd, mae’n sgorio’r rhif yna.
- Ar ôl gwthio’i bedwar ceiniog, mae’r chwaraewr yn cyfri ei sgôr.
- Cofia gadw sgôr pawb! Y sgôr uchaf sy’n ennill.


## Tŵr o Arian



**Byddi angen:**
Cyn gymaint o ddarnau arian ag y gelli di ddod o hyd iddyn nhw!

**Sut i Chwarae:**
- Cymerwch eich tro i wneud tŵr o arian.
- Sawl darn o arian fedri di ei ddefnyddio nes fydd y tŵr yn disgyn?
- Wedi i ti gael nifer o droeon amsera dy hun i weld pa mor gyflym fedri di wneud tŵr cyn iddo syrthio.
- Rho her i aelodau eraill o dy deulu i wneud tŵr gyda’r arian.

# Dolenni



Fideo o’r stori
https://youtu.be/N4l4nB1hFPQ

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/C6c9B_fmzVk





Cartŵn o’r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=tUwcMlbBml8



# Crefft



## Potyn arian gwenyn gwenog

**Byddi angen:**
Gwagia a glanha dwb grefi (neu unrhyw dwb â chaead), papur melyn, cerdyn du, cerdyn gwyn x 2, siswrn, pensil, pinnau ffelt, glud





1. Torra'r papur melyn yn sgwariau.



2.Gorchuddia'r twb â glud ac yna glyna'r sgwariau melyn yn sownd ynddo.




3.Os nad oes gen ti bapur melyn fe allet ti orchuddio'r twb â phapur gwyn ac yna ei beintio'n felyn.



4.Torra stribedi hir o gerdyn du.



5.Glyna'r stribedi du yn y twb melyn gan adael yr un gofod rhyngddynt.



6.Gwna lun dwy lygaid a cheg a'u lliwio. Torra nhw allan.



7.Gluda'r llygaid a'r geg yn sownd ar flaen yn y twb.



8. Plyga'r cerdyn gwyn yn ei hanner. Gwna amlinelliad o dy law a thorra hi allan. Bydd gen ti ddwy law.



9.Gluda'r ddwy law yn sownd ar gefn y twb.



10.Gwna luniau pâr o deimlyddion ar gerdyn du a'u torri nhw allan.



11.Gluda'r teimlyddion yn sownd ar gefn y twb.



Nawr mae'r potyn gwenyn gwenog yn barod i'w ddefnyddio.
**Paid ag anghofio bod yn roddwr hael!**

# Gweddi Greadigol

## Arian Cochion

- Estynna ddau ddarn o arian coch ac ychydig o finegr.
- Rho un darn o arian coch yn y finegr dros nos.
- Yn y bore tynna'r darn arian coch allan o'r finegr.
- Beth sydd wedi digwydd i'r darn arian coch?
- Meddylia am yr hyn ddigwyddodd i'r darn arian coch. Ydy'r finegr wedi ei droi'n loyw ac yn lân?
- Mae'n dweud yn y Beibl y gall Duw greu calon lân oddi mewn i ni. Yn union fel y mae'r finegr wedi newid y darn arian coch gall Duw ein newid ninnau.
- Gofynna i'r Arglwydd mewn gweddi i roi calon lân a newydd i ti a dyweda mae'n ddrwg gen i am y pethau ti wedi eu gwneud yn anghywir.



# Canu

Dau fag llawn o arian yn y casgliad.
Fe wnaeth dyn cyfoethog eu rhoi nhw yn eu lle.
Llawer mwy sy ganddo fo adre;
Llawer mwy i wario arno'i hun.



Dwy geiniog fach yn syrthio i mewn i'r casgliad.
Wnaeth gweddw dlawd eu rhoi nhw yn eu lle.
Dim byd rhagor sydd ganddi hi gartref;
Dim byd rhagor iddi allu bwydo'i hun.



Dwedodd Iesu, 'Hi sy' wedi rhoi'r mwyaf.
Mae'r dyn cyfoethog dal efo gymaint yn sbâr.
Roedd y ddynes hon yn caru Duw gymaint –
Na, ni chadwodd ddim yn ôl iddi hi ei hun.

Hawlfraint 2020 Andy Hughes

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/C6c9B_fmzVk
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org